

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	18 Tachwedd 2015
<b>TEITL</b>	Cynllun Rheoli'r AHNE
<b>PWRPAS</b>	Gwybyddu Aelodau
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr Wybodaeth

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon i aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol er darparu diweddariad ar y gwaith o ddiweddarau ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.
- 1.2 Yn sgil Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 gosodwyd cyfrifoldeb statudol ar Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod perthnasol, i baratoi cynllun rheoli ar gyfer yr AHNE ac i adolygu'r cynllun hwnnw bob 5 mlynedd.

## **2.0 GWAITH HYD YMA**

- 2.1 Mae nifer o gamau wedi eu cymeryd tuag at ddiweddarau a diwygio'r Cynllun Rheoli presennol a gwblhawyd yn 2010, fel â ganlyn:
- Adolygiad o'r Cynllun presennol (gan staff mewnol y Cyngor)
  - Casglu gwybodaeth diweddar - yn cynnwys comisiynu Adroddiad o Gyflwr yr AHNE - bydd copïau o'r adroddiad yma yn cael eu dosbarthu yn y cyfarfod gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a diddorol.
  - Ymgynghori gyda rhanddeiliaid fel: CADW, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Hunaniaith, Yr Undebau Amaethyddol, Partneriaeth Tirlun Llŷn, Ymddiriedolaeth Genedlaethol
  - Cynnal gweithdy gyda Aelodau y Cydbwyllgor pan drafodwyd y dull Ecosystem o reoli adnoddau naturiol, beth sy'n arbennig am AHNE Llŷn, argraffiadau am newidiadau a thueddiadau lleol pholisïau y Cynllun Rheoli.
  - Diweddarau a diwygio rhannau o'r Cynllun presennol.

## **3.0 RHAN 1 O'R CYNLLUN RHEOLI**

- 3.1 Mae Rhan 1 o'r Cynllun diwygiedig (ar gyfer 2015-20) yn cynnwys y rhannau canlynol:
- **Cyflwyniad**

- **Cyd-destun**
- **Y Dull Ecosystem**
- **Rhinweddau Llŷn**
- **Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol**

3.2 Mae'r rhannau hyn o'r Cynllun wedi eu hatodi fel Atodiad i'r adroddiad hon.

#### **4.0 RHAN 2**

4.1 Mae staff yr Uned AHNE wedi dechrau gweithio ar Ran 2 y Cynllun. Bwriedir newid ychydig ar ddull Rhan 2 ar gyfer y Cynllun hwn. Y bwriad yw creu rhannau/penodau yn deilio gyda gwahanol nodweddion (yn hyrtach na gosod opoeth gydai'i gilydd mewn un rhan yn y cynllun presennol). Hefyd bwriedir gosod llawer o wybodaeth gefndirol mewn dogfen atodol er gwneud y Cynllun yn haws i'w ddarllen a'i ddilyn.

4.2 Bydd pob rhan neu bennod yn cynnwys dadansoddiad o'r nodwedd, adnabod newidiadau a thueddiadau a gosod polisiau ar gyfer y dyfodol. Hefyd yn Rhan 2 bydd Cynllun Gweithredu fydd yn cynnwys gweithredoedd penodol yr anelir i'w gweithredu yn ystod oes y Cynllun.

4.3 Anelir i dod a Rhan 2 o'r Cynllun diwygiedig gerbron y Cydbwyllgor yn ystod Gwanwyn 2016.

#### **5.0 ARGYMHELLIAD**

5.1 Derbyn yr wybodaeth.